

NOSON cyn y Bererindod i Ynys Enlli ym mis Mehefin roedd Eglwys y Santes Fair, Bryn croes, yn llawn.

Gwahoddwyd yno i bregethu, y Prifardd a'r Parchedig Gwynn ap Gwilym, ac un o bobl Llŷn oedd y Deon Gwlad, y Parchedig William Jones, a arweiniodd Osber y Pererinion.

Yno yn y llan ddistaw roedd yn naturiol i ddyd ei holi ei hun ai o oes y croesgadaw y cafodd y plwyf hynafol ei enw. Plwyf y mae rhan ohono yng nghwmwd Cymydfaen, a rhan arall yng nghwmwd Gafflogion. Anodd credu erbyn heddiw fod i'r plwyf cwbl amaethyddol hwn boblogaeth o saith gant a hanner ar ddechrau'r ganrif, ac wyth gant ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Ac yn hanes Enlli ei hunan mae cyfeiriad at rannu'r ynys i bedair rhan i bwmpas rhenti, a'r enw ar un ohonynt oedd y Groes. Roedd y chwarter hwn, fe ymddengys, yn cynnwys y fan lle'r oedd gweddillion yr Abaty, a'r enw a roed ar y darn tir yn awgrymog a digon diddorol.

Mae i'r plwyf hen gysylltiadau ag Enlli, gan mai i'r fynachlog yno y telid y degwm. A gan fod yr eglwys ar ffordd y pererinion, credid y byddai rhai ohonynt yn croesi'r swnt i'r tir mawr yn ystod y gaef, ac mai dyna pam fod yr enw Bodgaeaf mor amlwg yn y fro o hyd. Mae enwau fel Mynachdy, Tŷ Fair, ac eraill ar gael yn ogystal.

* * *

YN YR eglwys hon y bedyddiwyd ac y claddwyd y rhyfeddol Ieuan Llŷn, neu Ieuan Fardd Bryn croes. Fel y nododd Syr Thomas Parry, mewn erthygl oleuedig ar weithiau a chefnidir awenyddol y bardd, fe fu cryn gamddealltwriaeth a cham-ddyfnynu ar rai o weithiau prydydd oedd ag iddo ei nodweddion arbennig. Canai i ddigwyddiadau cyffrous fel llongddrylliadau, ac mae'r cyfryw yn groniciâu gwerthfawr o dreialon ar arfordiroedd gwlad Llŷn.

Bu'r gân am gwch Enlli yn troi drosodd o fewn golwg y Cafn, pan gollwyd chwech o fywydau, ar gof y werin am flynyddoedd.

Do, bu'n ysgolfeistr, a hynny efallai yn y llan ei hun. A byddaf bob amser yn dotio at y cyfarchiad a anfonodd bardd arall o Llŷn, Owain Llŷn, gyda'i ferch fach Siân at Ieuan Llŷn, pan aeth i'w ysgol am y tro cyntaf:

*A gwir serch 'rwyn gyrru Siân,
I'rh ddyfal ofal Ifan,
I ddisgwyl ei haddysgu
I ddarllen yn gymen gu,
Os bydd hi mewn d'reidi drwg,
Gwialen wna'r tro neu gilwg,
Os bydd heb eirio'n bêr,
Dena hi yn no dyner,
Rhag suddo mewn culni caeth,
A bydio amwybodaeth.*

PERERINDOTA TUA YNYS Y SEINTIAU



gan IOAN MAI EVANS

Eto ar fur cangell yr eglwys mae coffa am deuluoedd Trygarn, lle maged yr enwog Moses Griffith, arlunydd Thomas Pennant, ac os am lun o Enlli fel y gwelodd Moses Griffith hi dros ddeugant o flynyddoedd yn ôl bellach, mae hi â'r cynefin ymysg ei gannoedd lluniau. Hyd at ucheldiroedd yr Alban, fe deimlwn yn ddiweddar fy mod yn dilyn ôl troed y camera cynnar hwn o Llŷn, a deil ei luniau lliw ar gardiau post hyd heddiw.

* * *

I BWRPAS Y *Casglwr*, rwy'n arwain at un arall o fechgyn Bryn croes, na chafodd hwyrach

ei gydnabod i'r un graddau. Un a drigai tua'r un amser â Dic Aberdaron, ac a fu'n gymaint pererin ag yntau. William Rowlands, neu Gwilym Llŷn, oedd hwnnw, y bu ei gyfraniad i Lenyddiaeth Cymru yn sylweddol ddywedwn i.

Nid o harbwr i harbwr fel Dic, y crywdrai hwn, ond o bentref i dref, ac i gorneli tywyll mân ffermydd yng Ngogledd a De Cymru. Ei swydd fel gweinidog Wesla efallai a fwydai ei reddf am fod yn llyfryddwr diwyd yn ogystal.

Cofiw'n fod hwn yn casglu pan nad oedd llyfrgell Gymraeg ym Mangor, Aberystwyth na Chaerdydd. Llyfrgelloedd plasau'r uchelwyr hefyd wedi

dechrau chwalu wrth newid dwylo.

Digon diafael fu hanes ei ddyddiau ysgol ym Mryn croes, a'r ateb wrth farcio'r rejistryr, a hynny'n rhy aml gallaswn feddwl: 'William Rowlands, absent Sir' Wedyn yn hen ysgol Botwnnog, lle'r aeth yn un ar ddeg oed, cwynai fod ei dad William Rowlands, lawer yn rhy chwannog i'w gadw gartref i'w gynorthwyo fel gwehydd. Eto i gyd yn naw oed roedd wedi meistrolï darllen Cymraeg a Saesneg, a gadawodd Fotwnnog yn dair ar ddeg.

Pan oedd Gwilym yn ddeg oed fe ddychwelodd yr Ecseismon a'r hynafiaethydd, Ieuan Llŷn, i Fryn croes o'i grwydradau yn Lloegr, a beth fu dylanwad y diwylliedig rai yn achos cynnar y Tŷ mawr, Mecca'r Methodistiaid yn Llŷn, mae'n anodd dweud.

Ond fe wyddis fod ei gyfrol drwchus o wyth gant o dudalennau, *Llyfryddiaeth y Cymry* yn un o drysorau ein cenedl. Bu farw Gwilym Llŷn bedair blynedd cyn ei chyhoeddi.

* * *

TRANNOETH y Gosber, cerddai yn agos i fil a hanner y pum milltir ar hyd y gefnffordd o Roshirwaun i olwg Ynys Enlli ar Fynydd Mawr, sef pen y daith o Eglwys Clynnog Fawr ac Aber-erch.

Yno, canodd y torfeydd emyn Williams, 'Pererin wyf mewn anial dir' — testun anerchiad Esgob Bangor, Cledan Mears.

PRIVATE ADDRESS:
Bro Hedd, Victoria Road,
10. HIGH STREET,
CAERNARVON

Sept 9th 1938

To JOHN WILLIAMS,
Painter, Plumber, Decorator.
ESTIMATES FREE ON APPLICATION.
CONTRACTOR H.M. OFFICE OF WORKS.

Casglu llythyrau busnes

UN RHAN o fyd casglu na roddwyd sylw iddo yn *Y Casglwr* (os yw fy nghof i'n gywir) yw'r arfer o hel hen lythyrau busnes — nid oherwydd cynnwys y llythyrau hynny, ond oherwydd y gwaith arlunio a geir arnynt er mwyn hysbysebu cwmni arbennig.

Mae biliau a llythyrau busnes o'r fath yn cario enw, cyfeiriad a disgrifiad byr o swyddogaeth y cwmni, ond yn aml, maent hefyd yn cynnwys logo, llun, arfbais neu hyd yn oed hysbyseb — a hynny'n aml mewn lliw. Maent yn rhoi darlun o fyd busnes ar wahanol gyfnodau yn hanes bro neu ardal arbennig.

Ble mae'r 'pethau printiedig'

gan D. Whiteside Thomas

hyn i'w cael? Bellach, maent yn eithaf prin, oherwydd mae pob swyddfa a chwmni yn defnyddio carpiwr papur/llarpiwr papur (beth yw'r term Cymraeg am 'paper shredder?') i ddfetha pob mymryn o lythyr a bil nad oes mo'i angen mwyach. Ond mae rhai yn dod i'r fei bob yn hyn a hyn.

Lwc mwnci ddaeth â chasgliad bychan i mi, a'r cyfan yn dyddio o ddauddegau a thridegau'r ganrif hon. Yn anffodus, nid dyma'r cyfnod gorau i arddangos llythyrau busnes a biliau yn eu gogoniant artistig. Mae'r cyfnod hwnnw, yn ôl yr arbenigwyr, yn

dyddio o ail hanner y ganrif ddiwethaf; a hynny'n arbennig ar lythyrau busnes yn eiddo i westy.

Dyma'r cyfnod pan gyfrifid dŵr poeth ac oer, a golau trydan o fewn gwesty yn ddigon pwysig i'w nodi ar lythyrau busnes a biliau pob gwesty. Gwasanaethau eraill a roddai gryn bwys ar ddarlunio eu biliau oedd groser, gofaint, gwneuthurwyr hetiau, teilwriaid a'r gwahanol grefftau yn ymwneud ag adeiladu tai.

Prin yw'r casgliad sydd yn fy meddiant — a hyd yma, ni wneuthum unrhyw ymdrech i ychwanegu ato. Saesneg yw iaith pob un o'r llythyrau, ar wahân i un, a'r un hwnnw yw'r mwyaf diddorol o'r cyfan, a hynny am ei fod yn Sbaeneg, ac yn dod o Batagonia!